Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 14 Hydref 2020
Microsoft Teams

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Delyth Murphy, Dr Euryn Roberts, Llŷr Roberts
Aelodau (Sefydliad):	Judith Davies, Dr Gwenno Ffrancon, Dr James Gravelle, Penri James, Elen Mai Nefydd, Dr Paula Roberts, Dr Catrin Haf Williams, Dr Huw Williams
Aelodau (Myfyrwyr):	Owain Beynon, Iwan Evans, Llŷr Griffiths, Ela Jones, Moc Lewis, Emyr Owen, Katie Phillips
Aelodau (Addysg Bellach):	Lynwen Harrington
Yn bresennol:	Meri Huws, Gareth Pierce (Cadeirydd y Coleg)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr); Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd ac Ysgrifennydd); Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd); Delyth Ifan, Rhian Jones a Gwenllian Owen (Rheolwyr Academaidd); Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Jerry Hunter, Yr Athro Eleri Pryse, Carys Swain, Daniel Tiplady, Dr Prysor Williams, Lois Jones

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Estynnwyd croeso arbennig i Dr Huw Williams i'w gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd Cangen Prifysgol Caerdydd; ac i Dr James Gravelle, Prifysgol De Cymru. 1.3. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21. Nodwyd y penodwyd y canlynol: Moc Lewis, Prifysgol Aberystwyth		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Iwan Evans, Prifysgol Bangor Owain Beynon, Prifysgol Caerdydd Katie Phillips, Prifysgol Abertawe Ela Jones, Prifysgol Metopolitan Caerdydd Lois Jones, Prifysgol De Cymru Llŷr Griffiths, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant Emyr Owen, Prifysgol Glyndŵr 1.4. Diolchwyd i Mared Jones, Swyddog Pwnc y Dyniaethau a'r Celfyddydau, am drefnu cyfarfod anwytho'r myfyrwyr ar 8 Medi 2020. 1.5. Nodwyd llongyfarchiadau i'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones ar ei hurddo i'r orsedd. 1.6. Nodwyd llongyfarchiadau i Mererid Hopwood ar ei phenodi'n Athro'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth. 1.7. Nodwyd bod Delyth Murphy ar fin ymddeol. Diolchwyd iddi am ei chyfraniadau ers sefydlu'r Bwrdd Academaidd, fel Is-Gadeirydd, ac yn arbennig fel lladmerydd ym maes ehangu mynediad. 1.8. Nodwyd bod yr Athro Siwan Davies wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd Academaidd a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth a'i chyfraniad. 1.9. Bydd y Coleg yn penodi cynrychiolwyr yn eu lle maes o law. 1.10. Estynnwyd cydymdeimlad y Bwrdd i Elen Mai Nefydd yn dilyn ei phrofedigaeth diweddar.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2020	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Materion yn codi	4.1. <u>Eitem 4.6: Trefniadau TSI</u> Adroddwyd bod trefniadau ar waith ynghylch y Dystysgrif Sgiliau Iaith a bod cofrestriadau yn cael eu derbyn. 4.2. <u>Eitem 8.7: Dathlu Myfyrwyr Iechyd Caerdydd a Chynhadledd y Gymdeithas Feddygol.</u> Adroddwyd bod y gynhadledd a drefnwyd ar gyfer 10-11 Hydref 2020 wedi ei gohirio o ganlyniad i'r argyfwng.		
5. Cylch gorchwyl **(Eitem 5)**	5.1. Cyflwynwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd wedi'i hadolygu gan yr Ysgrifennydd. 5.2. Nodwyd nad oedd rôl gan y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant wrth benodi aelodau i'r Bwrdd Academaidd. 5.3. Yn dilyn trafodaeth argymhellwyd croesgyfeirio at Gynllun Strategol y Coleg yn yr amcanion. 5.4. Cytunwyd ar y diwygiadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer cymeradwyaeth ar 25 Tachwedd 2020.	Cylch gorchwyl i'r BC	25 Tachwedd 2020
6. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	6.1. Cafwyd diweddariad ar waith y Coleg gan y Prif Weithredwr. 6.2. Adroddwyd bod y Coleg yn ymateb i'r heriau yn y sector wrth gefnogi gwaith y prifysgolion a myfyrwyr. 6.3. Adroddwyd y bu cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg i drafod yr heriau sy'n wynebu prifysgolion; y sector Addysg Bellach a phrentisiaethau; ac Addysg Gychwynnol Athrawon yng nghyd-destun y Strategaeth Iaith yn ystod y pum mlynedd nesaf. 6.4. Adroddwyd bod y Coleg yn cydlynu cais i Gronfa Adfer a Buddsoddi'r Cyngor Cyllido (HEFCW) i gefnogi dysgu cyfunol a diogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda phwyslais ar gydweithio rhwng sefydliadau. 6.5. Adroddwyd y bydd y cylch o gyfarfodydd unigol gyda'r		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	prifysgolion yn dechrau yn ystod y tymor hwn. 6.6. Adroddwyd bod cyfarfodydd gyda phleidiau gwleidyddol yn cael eu cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddyheadau'r a blaenoriaethau'r Coleg ar gyfer tymor y Senedd nesaf cyn etholiadau 2021. 6.7. Adroddwyd ar ymddeoliad Catherine Rees a'r trefniadau ail-stwythuro mewnol. Adroddwyd bod Dr Dylan Phillips wedi ei benodi'n Ysgrifennydd a bod Nia Brown wedi ehangu ei chyfrifoldebau llywodraethiant.		
7. Ysgoloriaethau Ar y pwynt hwn cyrhaeddodd yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones	7.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar y cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant estynedig gan y Cofrestrydd. Nodwyd bod y data wedi ei baratoi ar y cyd gyda Gwenllian Owen. 7.2. Adroddwyd bod y Coleg wedi derbyn 476 cais ar gyfer Ysgoloriaeth Cymhelliant, a ymestynwyd i gynnwys pob myfyriwr sy'n dechrau yn y brifysgol yn mis Medi 2020 sy'n dewis astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod nifer y ceisiadau yn sylweddol uwch nag erioed o'r blaen. 7.3. Nodwyd y data ar gyfer pob prifysgol a fesul pwnc. 7.4. Yn ystod y drafodaeth adroddwyd y byddai'n rhaid aros am y ffigyrau terfynol cyn dod i gasgliadau pendant ynghylch heriau o fewn pynciau penodol. 7.5. Adroddwyd bod y Coleg yn monitro darpariaethau bychain yn y prifysgolion ac yn trafod eu diogelu yn y cyfarfodydd cynllunio. 7.6. Adroddwyd bod digwyddiadau a chynadleddau cydweithredol y Coleg yn cynnig nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr o sefydliadau ledled Cymru ddod ynghyd yn ystod y flwyddyn academaid hon.		
8. Adolygu cynlluniau pynciol	8.1. Cyflwynwyd adroddiad ar adolygu cynlluniau pynciol gan yr Ysgrifennydd. Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei baratoi		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(Eitem 8) Ar y pwynt hwn ymadawodd Judith Davies, Rhian Jones ac Elen Mai Nefydd	gan Gwenllian Owen. 8.2. Adroddwyd y gohiriwyd cyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod diwethaf oherwydd Covid-19. Eglurwyd bod yr adroddiad yn parhau'n anghyflawn gan nad oedd modd derbyn gwybodaeth gan bob adran na phrifysgol yn ystod y sefyllfa bresennol. 8.3. Adroddwyd bod y Coleg yn aros am ganlyniad y cais i gronfa adfer y Cyngor Cyllido a fyddai'n cynorthwyo gyda chydweithio traws-sefydliadol. 8.4. Trafodwyd paratoi crynhoad a fyddai'n addas i'w rannu gyda'r canghennau gan nad oedd yr adroddiad yn gyflawn eto. 8.5. Yn ystod y drafodaeth eglurwyd bod y Coleg yn ceisio dylanwadu ar dargedau darpariaeth trwy'r cynlluniau ysgoloriaethau a grantiau pynciol. 8.6. Adroddir ar y goblygiadau tymor hir yn y cyfarfod nesaf.	Coleg i drafod crynhoad i'w rannu gyda'r canghennau Adroddiad tymor hir	Tymor yr hydref 2020 3 Chwefror 2021
9. Y sefyllfa bresennol **(Eitem 9a)**	9.1. Cyflwynwyd papur y myfyrwyr ar yr heriau yn sgil Covid-19 gan Iwan Evans. 9.2. Adroddwyd bod adborth cadarnhaol wedi eu dderbyn gan y myfyrwyr ynghylch: • Dysgu cyfunol • Adnoddau llyfrgell • Wythnos y Glas rhithiol 9.3. Adroddwyd mai'r prif heriau oedd: • Unigrwydd o fewn neuaddau preswyl a'r angen i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ar-lein • Diffyg sgiliau neu adnoddau technoleg • Cyfathrebu trefniadau ymarferol 9.4. Yn dilyn trafodaeth ar gymuned a lles argymhellwyd bod y canghennau yn cadw golwg ar sefyllfa gosod myfyrwyr mewn llety o fewn cymuned Cymraeg. 9.5. Cafwyd diweddariad llafar gan y canghennau gan		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
Ar y pwynt hwn ymunodd Dr Huw Williams	gynnwys: • Digwyddiadau pontio a darpariaeth addysgu ar-lein • Datblygiadau ail-strwythuro ym Mhrifysgol Abertawe • Toriadau arfaethiedig ym Mhrifysgol Bangor • Gwefan Iechyd Meddwl • Unigrwydd staff yn ogystal â myfyrwyr • Anhawster corlannu myfyrwyr newydd i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg 9.6 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y cynhaliwyd sesiwn 'rhannu arfer dda' llwyddiannus iawn ym mis Mehefin gan y Coleg. Adroddwyd bod sesiynau tebyg wedi'u trefnu eto ar gyfer mis Ionawr a mis Mehefin 2021. Rhannwyd rhestr o'r sesiynau ar gyfer datblygiad staff yn ystod y cyfarfod. 9.7 Trafodwyd bwysigrwydd dilyniant ieithyddol. 9.8 Adroddwyd bod dulliau amgen ar waith gan y Coleg i gadw cyswllt gyda'r ysgolion. 9.9 Yn ystod y drafodaeth nodwyd bwysigrwydd codi hyder ieithyddol proffesiynol. 9.10 Ar ddiwedd y drafodaeth nododd y Prif Weithredwr y byddai modd parhau i ddefnyddio adnoddau'n gydweithredol.		
10. Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi	10.1. Rhoddwyd diweddariad llafar ar faterion yn ymwneud â'r Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi gan yr Ysgrifennydd. 10.2. Nodwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn ystod tymor yr haf. Bydd y cyfarfod nesaf ar 17 Tachwedd 2020. 10.3. Adroddwyd ar Gynhadledd Ymchwil Rithiol, 1 Gorffennaf 2020. Gyda dros 100 yn bresennol yn rhithiol argymhellwyd edrych ar ffurf digwyddiadau yn y dyfodol er mwyn bod yn fwy cynhwysol. 10.4. Adroddwyd y cyhoeddir rhifyn 31 *Gwerddon* ddiwedd y		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	mis a bod tair o'r pum erthygl wedi'u cyflwyno i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).		
11. Ehangu mynediad a chyfranogiad **(Eitem 11)** Ar y pwynt hwn ymadawodd Lynwen Harrington	11.1. Cyflwynwyd adroddiad ar faterion yn ymwneud ag ehangu mynediad a chyfranogiad gan Delyth Murphy. Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei baratoi gan Adam Jones 11.2. Anogwyd y Coleg i barhau i roi sylw dyledus i'r maes. 11.3. Nodwyd y bu Delyth Murphy yn ladmerydd brwd a chyson yn y maes a dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad.		
12. Darlithwyr cysylltiol	12.1. Adroddwyd y cyhoeddwyd enillwyr Gwobrau'r Darlithwyr Cysylltiol ar gyfer 2019/20 ar 16 Gorffennaf 2020 fel a ganlyn: i. **Gwobr hwyluso addysg cyfrwng Cymraeg**: Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth ii. **Gwobr adnodd cyfrwng Cymraeg**: *Gwerddon Fach* a'r Gwerslyfr Daearyddiaeth iii. **Gwobr arloesi ar draws ffiniau**: Tîm JOMEC Cymraeg, Prifysgol Caerdydd		
13. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	13.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 3 Chwefror 2021 • 12 Mai 2021		